Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

Cwestiynau ymgynghori

Egwyddorion arweiniol

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r egwyddorion arweiniol craidd ac y dylid eu defnyddio ym mhob rhan o Gynllun Buddsoddi newydd i Gymru?

Ydw ☒ Nac ydw ☐

Mae CGGC yn cytuno'n fras â'r egwyddorion yn adran 1.3 ond yn gofyn am eglurhad wrth Lywodraeth Cymru ar sawl pwynt craidd. Rydyn ni'n poeni'n bennaf am rôl aneglur 'partneriaid' wrth gyflwyno'r gronfa. Mae rhagair Ysgrifenydd y Cabinet i'r ddogfen yn rhestru sawl partner allweddol:

'partneriaeth, lle daw Llywodraeth Cymru at ei gilydd gyda llywodraeth leol, busnesau a mentrau cymdeithasol (…) y trydydd sector a chyrff cyhoeddus eraill"

Rydyn ni'n croesawu'r ffaith bod y sector gwirfoddol yn cael ei gydnabod ond yn gofyn iddo gael ei gynnwys ar lefel strategol. Dylid gorfodi cyfranogiad y sector gwirfoddol wrth wneud penderfyniadau ar lefelau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol fel egwyddor graidd i'r Gronfa Twf Lleol (LGF). Mae gan y sector brofiad helaeth o ran darparu cyllid UKSPF a chyllid yr UE a gall chwarae rôl ganolog wrth siapio cronfa ei olynydd.

Mae hyn yn cyfeirio'n benodol at Egwyddorion 'B' a 'H', ond mae'n berthnasol drwy'r ddogfen gyfan. Yn aml, nid yw'n glir pwy yw'r partneriaid hyn a beth yw eu rôl wrth gyflawni nodau penodol. O ystyried bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi rhestru'r trydydd sector fel partner posib, hoffem weld hyn yn cael ei gydnabod yn yr egwyddorion arweiniol lle bo'n berthnasol.

Rydyn ni'n croesawu uchelgais Egwyddor E am gyllid aml-flwyddyn, sy'n cyd-fynd â'n cais hirhoedlog am hynny, a gyda'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Rydyn ni'n poeni sut bydd hyn yn cael ei wireddu, o ystyried y bydd y flwyddyn bontio yn defnyddio seilwaith cyfredol, cyn symud i system a adeiladwyd o amgylch y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJC). Byddem yn croesawu mwy o eglurder o ran sicrhau cyllid hirdymor cyson, gan ystyried y broses bontio at system gyflenwi newydd ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Cwestiwn 2: A ddylem ystyried unrhyw egwyddorion eraill?

Rydyn ni'n croesawu'r ymdeimlad a fynegir yn Egwyddor F a'r ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd drwy gydol y ddogfen. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig y rhai y mae menywod, pobl anabl, a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu hwynebu.

Serch hynny, gofynnwn am egwyddor sy'n rhoi mwy o bwyslais ar werth cymdeithasol a gyflawnir drwy fuddsoddiad y Gronfa Twf Lleol. Er bod CGGC yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU tuag at dwf economaidd, credwn fod yn rhaid i'r twf hwn fynd law yn llaw â gwerth cymdeithasol ychwanegol.

Cynhyrchodd yr UKSPF blaenorol enghreifftiau o Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad positif:

- Am bob £1 a fuddsoddir, cafodd £3.36 ei ddychwelyd drwy gyllid ar gyfer Caffi Hafod Ceiri drwy Mantell Gwynedd.
- Am bob £1 a fuddsoddir, cafodd £1.86 ei ddychwelyd drwy gyllid ar gyfer Banc Bwyd Arfon drwy Mantell Gwynedd.
- Am bob £1 a fuddsoddir, cafodd £2.69 ei ddychwelyd drwy gyllid ar gyfer Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog drwy Mantell Gwynedd.

Yn bennaf, roedd yr enillion hyn ar ffurf cydlyniant cymunedol gwell a lles meddyliol a chorfforol gwell. O ystyried y rôl amlwg y mae iechyd a llesiant gwael yn ei chwarae mewn anweithgarwch economaidd, mae'r enghreifftiau hyn yn dangos dim ond rhai o'r ffyrdd y gall pwyslais ar werth cymdeithasol gefnogi'r genhadaeth economaidd gyffredinol.

Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno mai'r materion allweddol a nodwyd yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol cryno (Atodiad A) yw'r rhai cywir y dylem ganolbwyntio arnynt?

Ydw ☒

Nac ydw ☐

Rydyn ni’n cytuno â'r themâu allweddol yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ond yn nodi bod effaith gwirfoddoli ac ymyrraeth gynnar yn cael eu hanwybyddu. Gall gwirfoddoli fod yn ganolog i siwrnai unigolyn yn ôl i'r gwaith, tra gall atal helpu i atal afiechyd a sicrhau bod rhywun yn aros yn y gweithlu. O ystyried effaith iechyd a llesiant gwael ar y gweithlu yng Nghymru, sy'n cyfrannu at lefel anweithgarwch economaidd sy'n uwch na chyfartaledd y DU, mae cefnogi ymdrechion y sector gwirfoddol i wella llesiant yn hanfodol ac yn cyd-fynd yn dda â nod y Gronfa Twf Lleol o ran annog unigolion i weithio.

Rydyn ni’n croesawu'r pwyslais newydd ar sgiliau ac yn credu y gall y sector gwirfoddol barhau i chwarae rôl ganolog, fel y mae wedi'i wneud mewn rhaglenni blaenorol. Mae'r sector mewn sefyllfa dda i uwchsgilio pobl sydd bellaf o'r farchnad lafur. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth y Brenin yng Nghymru wedi darparu cymorth cyflogadwyedd o dan UKSPF mewn pedwar awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys helpu pobl NEET 16-30 oed yn ôl i waith wrth sefydlu 15 o fentrau newydd yng Nghaerdydd. Bydd yr arbenigedd hwn o fewn y sector yn hanfodol i ddarparu cymorth effeithiol drwy'r Gronfa Twf Lleol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd gofal i sicrhau nad yw’r camgymeriadau a wnaed pan ddaeth y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol i ben yn cael eu hailadrodd. Fe wnaeth y cynllun blaenorol a ariannwyd gan yr UE gefnogi 22,150 o bobl a oedd bellaf o’r farchnad lafur yn ôl i waith o 2015 i 2022. Nid yn unig y torrodd diwedd y cynllun hwn linell gymorth hanfodol i'r grwpiau hyn ond arweiniodd hefyd at ddatgymalu llawer o'r seilwaith a gefnogodd a galluogodd raglen integredig o fentrau cyflogadwyedd. Mae diffyg cyllid refeniw y Gronfa Twf Lleol yn peri mwy o risg i golli'r sgiliau a'r arbenigedd hyfforddi sy'n weddill yn y sector gwirfoddol.

Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

Cwestiwn 4: Pa un o'r amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n blaenoriaethu i ddarparu busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

O’r pedair blaenoriaeth a amlinellwyd, Amcanion Strategol 1 a 3 yn adran 2.1. rydyn ni’n eu cefnogi fwyaf.

Mae model buddsoddi cymdeithasol yn galluogi ailgylchu cronfeydd, gan sicrhau bod buddsoddiad cychwynnol y Gronfa Twf Lleol yn para'n hirach na'r rhaglen. Mae hyn yn golygu bod buddsoddiad cymdeithasol mewn sefyllfa unigryw i gefnogi nodau’r Gronfa Twf Lleol o ran creu swyddi a thwf economaidd tra’n ychwanegu gwerth cymdeithasol.

Mae CGGC yn cefnogi pwyslais Amcan 1 ar fenter gymdeithasol yn gryf. Mae cefnogi mentrau cymdeithasol yn sicrhau bod cymunedau'n elwa y tu hwnt i'r buddsoddiad cychwynnol ac yn adlewyrchu ein huchelgais i werth cymdeithasol fod yn rhan ganolog o'r Gronfa Twf Lleol. Rhaid i becyn cymorth y Gronfa Twf Lleol hefyd feithrin gallu cymorth yn y sector i ddarparu cymorth technegol i fusnesau cymdeithasol.

Rydyn ni hefyd yn cefnogi uchelgais Amcan 3 i ehangu mynediad at gyllid ar gyfer y rheini nad ydynt yn gallu benthyg o fenthycwyr traddodiadol. Mae gan CGGC brofiad sylweddol yn y maes hwn drwy Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru, sydd wedi benthyg dros £20 miliwn i’r sector.

Mae Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn darparu benthyca cymdeithasol i grwpiau cymunedol, elusennau, a mentrau cymdeithasol, gan gefnogi nod y Gronfa Twf Lleol o dwf economaidd tra’n ychwanegu gwerth cymdeithasol. Yn 2024/2025, darparodd Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru dros £1.2 miliwn mewn benthyciadau i dyfu mentrau cymdeithasol, gan gynnwys £920,000 drwy Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol, i helpu i ddod ag asedau cymunedol yn ôl i ddefnydd, ac mae eisoes wedi darparu £637,000 yn 2025/2026.

Mae model CGGC/Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn ailgylchu cyllid sawl gwaith, gan sicrhau effaith hirdymor. Er enghraifft, mae £532,000 a roddwyd gan ASDA wedi galluogi £787,000 mewn benthyciadau drwy ailgylchu dro ar ôl tro. Drwy ddefnyddio’r model hwn, gallai’r Gronfa Twf Lleol barhau i ddarparu buddion ymhell ar ôl i'w chyllid cychwynnol ddod i ben. Cyflawnir hyn tra’n cynhyrchu effaith gymdeithasol gref, gan ddarparu Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o £4.31 am bob £1 a fuddsoddir.

Ar gyfer Amcan 2, credwn y byddai'n cael ei gryfhau drwy gydnabod prinder sgiliau fel ffactor cyfyngol, gan gysylltu'n gliriach â phwyslais ehangach y ddogfen ar wella sgiliau a chyflogadwyedd.

Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau

Cwestiwn 5: Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n eu blaenoriaethu i gefnogi pobl i weithio a chynyddu sgiliau?

Fan hyn, byddem yn cefnogi amcan strategol un.

Rydyn ni'n croesawu'r ymrwymiad i gymorth sgiliau a hyfforddiant wedi'u targedu ar gyfer grwpiau sy'n wynebu lefelau uwch o allgáu economaidd. Serch hynny, hoffem weld y disgwyliadau ar y sector gwirfoddol yn cael eu hegluro yn y ddogfen hon. Er bod y sector yn ymddangos yn y ddogfen damcaniaeth newid, nid yw ei rôl ddisgwyliedig a sut bydd hyn yn cael ei ariannu wedi'u hegluro.

Os yw'r sector am gefnogi pobl drwy ymyriadau fel hyfforddiant sgiliau neu gyfleoedd gwirfoddoli, yna rhaid i hyn gael ei gefnogi gan gyllid priodol. Nid yw gwirfoddoli am ddim, a rhaid darparu adnoddau priodol i'r sector i gefnogi gwirfoddolwyr ar eu siwrnai nôl i'r gwaith. Rhaid darparu adnoddau priodol ar gyfer hyn yn unol â'r Cod Ymarfer newydd ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a'i gefnogi gan strategaeth hirdymor glir.

Cyflawnodd rôl flaenorol CGGC o ran darparu hyfforddiant sgiliau drwy'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, a ariannwyd gan yr UE, Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad gwerth £3.37 am bob £1 a wariwyd. Cefnogodd y rhaglen dros 22,000 o unigolion i gyflogaeth, gan gynnwys dros 7,100 o bobl ifanc NEET 16–24 oed.

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae cyfraddau NEET yng Nghymru yn parhau'n uchel ar 15.1%, cynnydd o 3.6% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025. Er mwyn i'r Gronfa Twf Lleol gyd-fynd â gweledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Cymru fwy cyfartal a ffyniannus, rhaid i fuddsoddiadau flaenoriaethu'r grwpiau hyn sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae'r uchelgais hon yn gofyn am gyfranogiad gweithredol y sector gwirfoddol, sydd mewn sefyllfa unigryw i ymgysylltu a chefnogi'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gyflogaeth.

Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni

Cwestiwn 6: Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn fyddech chi'n eu blaenoriaethu i yrru cyfleoedd o ynni carbon isel a chysylltedd ar gyfer twf a lleihau anghydraddoldebau?

Rydyn ni'n cefnogi agor cyllid y Gronfa Twf Lleol sy'n galluogi asedau cymunedol i ddod yn fwy cynaliadwy. Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod mentrau cymdeithasol yn cael eu cydnabod, credwn nad oes digon o bwys yn cael ei roi ar rôl y sector gwirfoddol yn y maes hwn. Er enghraifft, mae cydweithrediad y Gronfa Ynni Glân rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn cefnogi'r sectorau gwirfoddol a phreifat i fuddsoddi mewn ynni glân, lleihau costau, a thorri allyriadau carbon. Cyfanswm gwerth y prosiect yw £24.6m gyda £5 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer benthyca cymdeithasol. Nod y prosiect yw denu £100 miliwn mewn buddsoddiadau a chreu dros 150 o swyddi yn y rhanbarth, gan atgyfnerthu rôl y sector gwirfoddol wrth greu swyddi a thwf cynaliadwy.

Mae'r sector gwirfoddol hefyd mewn sefyllfa dda i ddefnyddio'r Gronfa Twf Lleol i uwchraddio ei eiddo ac i osod seilwaith cynaliadwyedd. Mae asedau cymunedau fel clybiau chwaraeon a chanolfannau cymunedol yn lleoliadau delfrydol ar gyfer seilwaith fel paneli solar neu orsafoedd gwefru cerbydau trydan, gan roi buddion cymunedol ehangach tra'n bodloni amcanion y Gronfa Twf Lleol a Llywodraeth Cymru.

Seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol

Cwestiwn 7: Pa un o'r amcanion strategol hyn fyddech chi'n blaenoriaethu i dargedu buddsoddiad mewn seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol?

Rydyn ni'n croesawu'r gydnabyddiaeth ar bwysigrwydd seilwaith cymunedol cyfredol a chynlluniau ar gyfer buddsoddiadau cymunedol pellach. Serch hynny, byddem yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio seilwaith cyfredol i ddarparu cyllid yn gyflym i gymunedau. Gall seilwaith cyfredol y sector gwirfoddol gefnogi grwpiau cymunedol yn uniongyrchol a chynnal gwaith o ran asedau cymunedol. Gallai hyn ddigwydd yn ystod y cyfnod pontio, gydag adnoddau'r Gronfa Twf Lleol wedi'u cyfeirio drwy strwythurau cyfredol y sector gwirfoddol, gan sicrhau nad oes unrhyw doriad yn y cymorth hollbwysig i gymunedau Cymru. Rydyn ni hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd perchnogaeth gymunedol a chyflwyno hawl y gymuned i brynu fel ffordd ariannu arall o gefnogi cymunedau Cymru.

Er ein bod yn croesawu cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer cymunedau, mae yna angen amlwg hefyd am gyllid refeniw. Fel y gwelwyd yn enghreifftiau Mantell Gwynedd, gall gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned gynhyrchu Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad sylweddol, gan luosi effaith y cyllid cychwynnol. Serch hynny, dim ond gyda chyllid refeniw priodol i gynnal hirhoedledd unrhyw ymyrraeth benodol y gellir cyflawni hyn.

Rheoli'r broses bontio

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig hwn o reoli'r newid rhwng y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chyllid Twf Lleol yng Nghymru neu a oes gennych chi unrhyw farn bellach?

Ydw ☐

Nac ydw ☒

Mae gennym bryderon ynglŷn â sut bydd y ffrwd ariannu bresennol yn cael ei rheoli yn ystod y cyfnod pontio. Ni ymgynghorwyd â'r sector gwirfoddol tan nawr, ac mae'r terfynau amser tynn yn y broses ymgynghori yn rhwystro llawer rhag cymryd rhan.

Credwn bod yr amserlenni arfaethedig yn y ddogfen ymgynghorol ar gyfer y broses o bontio i'r Gronfa Twf Lleol yn afrealistig. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu grŵp pontio o fewn seilwaith cyfredol y trydydd sector i sicrhau proses bontio llyfn ac effeithiol. Rhaid i wersi gael eu dysgu o effaith negyddol diwedd cyllid yr UE ar y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Rydyn ni'n poeni am ddiffyg eglurder y prosesau i benderfynu pa brosiectau cyfredol sy'n dod o fewn blaenoriaethau Cynllun Buddsoddi y Gronfa Twf Lleol. Nid yw'n amlwg sut bydd y sector gwirfoddol yn cyfrannu at y broses hon, gan fod partneriaid y sector wedi nodi lefelau isel iawn o ymgysylltiad mewn perthynas â'r Gronfa Twf Lleol. O ystyried bod y sector wedi derbyn cyllid sylweddol ac wedi chwarae rôl allweddol wrth gyflwyno UKSPF a rhaglenni blaenorol yr UE, mae ganddo ddiddordeb amlwg o ran llywio dyfodol y Gronfa Twf Lleol. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau cyn diwedd 2025, ond nid yw'n glir pa gyfle fydd gan y sector i ymgysylltu'n ystyrlon, gan nad yw wedi cael y cyfle hyd yma.

Dylai prosiectau a seilwaith cyfredol barhau i dderbyn cyllid nes bod meini prawf clir yn cael eu datblygu a bod ymgysylltu ystyrlon yn digwydd. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i sector sy'n wynebu diswyddiadau staff a'r angen i ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gynnal prosiectau os na cheir eglurder.

Yn ystod y cyfnod pontio hwn, rhaid gwneud gwaith hefyd i ymgorffori'r sector gwirfoddol i weithrediadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Ar hyn o bryd mae partneriaid y sector gwirfoddol yn sôn am lefelau isel o ymgysylltiad â'r strwythurau hyn. Mae hyn wedi codi pryderon o ran yr angen i feithrin gallu yn gyflym yn y maes hwn e mwyn chwarae rôl ystyrlon mewn penderfyniadau am y Gronfa Twf Lleol.

Buddsoddiadau cenedlaethol a rolau

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Cwestiwn 10: A oes gennych chi farn am unrhyw ymyriadau penodol y dylid eu blaenoriaethu ar lefel genedlaethol yn unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth buddsoddi a ddisgrifir yn Adran 2?

Credwn y dylid cydlynu'r gwaith o uwchsgilio a hyfforddi ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd effeithiol. Nid oes gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig yr un profiad yn y maes hwn â Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol. Serch hynny, dylai lleisiau lleol gael y cyfle i gyfrannu at raglenni cenedlaethol er mwyn osgoi dyblygu. Byddai'r dull hwn hefyd yn sicrhau bod seilwaith sgiliau a hyfforddiant cyfredol yn cael ei ystyried yn briodol wrth gynllunio'r system newydd. Byddai'n helpu i sicrhau bod hyfforddiant sgiliau ar gael ledled Cymru ac yn llai dibynnol ar leoliad person. Er enghraifft, gallai hyfforddwr arbenigol sydd wedi'i leoli mewn un rhan o Gymru ddarparu hyfforddiant i ddysgwyr mewn mannau eraill, gan helpu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rhaid i'r broses o roi ystyriaeth i faint mwyaf effeithiol rhaglen fod yn rhan ganolog o'r penderfyniadau o ran pa lefel y dylid ei chyflwyno. Mae buddsoddiad cymdeithasol yn enghraifft dda o hyn. Dylid cydlynu'r broses o gyflwyno buddsoddiad cymdeithasol ar lefel Cymru gyfan. Dylai gynnwys opsiynau cyllid cymysg a oedd ar gael yn y gorffennol o dan gyllid yr UE. Mae angen cydlynu hyn ar lefel genedlaethol i sicrhau'r effaith fwyaf wrth gynnal maint a chysondeb digonol ar draws Cymru.

Buddsoddiadau rhanbarthol a rolau

Cwestiwn 11: Oes gennych chi farn ar y meini prawf y dylid eu defnyddio i bennu dyraniadau rhanbarthol, sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau?

Oes ☐

Nac oes ☐

Cynlluniau twf rhanbarthol

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gysylltu gyda gweledigaeth 10 mlynedd a chytuno ar gynllun cyflawni gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Twf Lleol?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Rydyn ni'n croesawu cynigion am gynlluniau 10 mlynedd hirdymor ar lefel Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd y dull hwn yn cynnig eglurder i bartneriaid ac yn caniatáu iddynt gynllunio eu rôl o ran y gwaith o ddarparu'r Gronfa Twf Lleol yn fwy effeithiol. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, rydyn ni'n disgwyl llwybrau clir i'r sector gwirfoddol gael mynediad at gyllid, ochr yn ochr â strategaethau i gynnal a gwella asedau cymunedol. Bydd cynllunio hirdymor, ynghyd â ffrwd refeniw ddiogel, yn galluogi cyllid aml-flwyddyn i bartneriaid yn unol â'r Cod Ymarfer newydd ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

Rydyn ni hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda'r sector gwirfoddol. Dylai rôl y sector gael ei wneud yn gliriach, gyda chyfleoedd i gymryd rhan wedi'u nodi'n glir. Dylai cyfranogiad y sector gwirfoddol wrth lywodraethu'r Gronfa Twf Lleol fod yn orfodol ar bob lefel berthnasol o lywodraeth fel egwyddor graidd o'r Gronfa Twf Lleol yng Nghymru. Rhaid i'r sector gwirfoddol dderbyn adnoddau priodol er mwyn i'r cyfranogiad hwn fod yn ystyrlon. Gallai ein cynnig ar gyfer Deddf Partneriaeth y Sector Gwirfoddol gryfhau'r ymrwymiadau hyn a chynnig sail gadarn.

Er mwyn i'r sector gwirfoddol gydweithio'n effeithiol ac i fod yn bartner llawn o ran darparu'r Gronfa Twf Lleol, rhaid iddo gael adnoddau. Nid yw'r sector fel arfer yn rhan o waith Cyd-bwyllgorau Corfforedig a byddai angen meithrin gallu. Gyda gallu'r sectorau i ymgysylltu â strwythurau presennol sydd eisoes dan straen, ni all ehangu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig heb adnoddau ychwanegol. Mae Adran 3.4.2 yn nodi y gellir defnyddio hyd at 4% o'r Gronfa Twf Lleol i feithrin gallu. Dylid neilltuo cyfran o hyn ar gyfer y sector gwirfoddol er mwyn ei alluogi i gymryd rhan yn y broses o lywodraethu rhaglenni.

Cyflawni'n lleol

Cwestiwn 13: A oes gennych unrhyw farn am sut y gellir cynnwys darpariaeth leol mewn cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol?

Gall seilwaith y sector gwirfoddol sy'n bodoli'n barod, fel Cynghorau Gwirfoddol Sirol, chwarae rôl ganolog wrth gefnogi'r broses o gyflawni prosiectau sy'n cael eu cydlynu'n genedlaethol ar lefel leol. Mae manteisio ar seilwaith cyfredol yn galluogi prosiectau'r Gronfa Twf Lleol i droi at wybodaeth y sector gwirfoddol lleol, osgoi'r angen i adeiladu strwythurau newydd, ac atal dyblygu gwaith a wnaed eisoes ar raglenni ariannu'r gorffennol. Mae hyfforddiant sgiliau sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd a chyfleoedd gwirfoddoli yn enghreifftiau da o raglenni lle gall seilwaith lleol cyfredol gefnogi'r broses o gyflwyno mentrau ar lefel genedlaethol yn effeithiol.

Gwerthuso a dangos tystiolaeth o gyflawni

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno â'r dull o fonitro a gwerthuso neu eisiau cynnig barn ychwanegol fel sail i ddull newydd o weithredu?

Ydw ☐

Nac Ydw ☐

Ydych chi eisiau cynnig safbwyntiau ychwanegol i lywio dull newydd?

Dylai'r Gronfa Twf Lleol newydd ddysgu wrth ddiffygion hen gyllid yr UE ac UKSPF wrth gynllunio ei ffordd o fonitro. Cynhyrchodd raglenni'r UE nifer fawr o ddata, ond yn aml nid oedd y data'n cael ei ddeall yn iawn, yn cael ei dan-ddefnyddio, ac yn anodd ei gyfathrebu. Mewn cyferbyniad, roedd gan UKSPF arferion gwan o ran rhannu data, gan danseilio ei allu i ddangos gwerth am arian. Mae data cadarn yn hollbwysig i grwpiau llywodraethu wneud penderfyniadau gwybodus. Dylai'r Gronfa Twf Lleol ystyried adnoddau fel dangosfyrddau digidol i symleiddio'r broses adrodd gan sicrhau bod gofynion monitro yn parhau i fod yn gymesur â chapasiti'r sefydliad.

Effaith ar y Gymraeg

Cwestiwn 15: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion ar gyfer y Gronfa Twf Leol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 16: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio'r cynigion ar gyfer y Gronfa Twf Leol neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad

Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch yr ymgynghoriad hwn i fynd i'r afael â nhw:

Er ein bod yn croesawu dyfodiad ffrwd ariannu newydd i Gymru, mae gennym bryderon o ran ei hamcanion, ei chyfansoddiad, a'i mecanweithiau cyflawni. Fel y nodwyd, nid bwriad y gronfa hon yw dod yn lle'r UKSPF. Heb unrhyw gronfeydd eraill wedi'u cyhoeddi a blwyddyn gyntaf y Gronfa Twf Lleol yn gweithredu fel blwyddyn bontio ar gyfer prosiectau UKSPF, credwn nad oes bwriad i lenwi'r bwlch a adawyd pan ddaeth cyllid yr UE ac UKSPF i ben. Mae'r Gronfa Balchder Bro yn drysu pethau ymhellach, sydd hefyd yn ymddangos nad yw'n disodli'r UKSPF. Yn ogystal, mae'r Gronfa Balchder Bro yn cynrychioli gostyngiad o £38 miliwn mewn cyllid i Gymru o'i gymharu ag UKSPF.

Mae pryderon y sector gwirfoddol yn cael eu gwaethygu gan y rhaniad 70/30 arfaethedig o blaid gwariant cyfalaf a byddem yn annog bod hyn yn cael ei ail-gydbwyso. Mae rhai prosiectau'n addas ar gyfer cyllid cyfalaf yn unig, ond mae angen refeniw parhaus ar y rhai sy'n cefnogi unigolion i gyflawni effaith gynaliadwy. Mae gwersi o ddiwedd cyllid yr UE yn dangos niwed dod â'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt i ben yn sydyn. Mae'r rhaniad hwn yn peryglu lleihau neu ddod â gwasanaethau'r sector gwirfoddol sy'n darparu hyfforddiant sgiliau, cymorth llesiant, a chymorth i ddychwelyd i'r gwaith, i ben. Mae hyn yn tanseilio amcanion cyflogadwyedd a thwf craidd y Gronfa Twf Lleol, gan beryglu llwyddiant y cronfeydd.

Cawsom ein siomi na fydd cyllid a oedd wedi'i gynnwys yn y gorffennol yng ngrŵp Cymunedau a Lleoedd UKSPF yn cael ei ailadrodd. Bydd gwasanaethau hanfodol fel banciau bwyd a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, ond nad ydynt wedi'u cysylltu'n benodol â chreu swyddi, mewn perygl. O dan UKSPF, roedd gan fudiadau gwirfoddol fynediad haws at gyllid oherwydd ei set ehangach a mwy hyblyg o nodau a oedd yn cymryd golwg fwy holistig ar y newidiadau sy'n wynebu ein cymunedau.

Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru eisoes o dan bwysau ariannol, gyda nifer cynyddol yn cau. Mae Baromedr Cymru yn dangos bod 74% o elusennau wedi gweld eu sefyllfa ariannol yn gwaethygu oherwydd costau'n codi, gyda 48% yn defnyddio arian wrth gefn i fodloni costau cynyddol, ac nid oes gan 12% unrhyw arian wrth gefn. Bydd yr anawsterau hyn yn gwaethygu yn sgil ailflaenoriaethu cronfeydd y Gronfa Twf Lleol, gan achosi mwy o swyddi'n cau a cholli swyddi, ynghyd â cholli arbenigedd amhrisiadwy o fewn y sector.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn amcangyfrif y gallai cynifer â 25% o swyddi o fewn y mudiad gael eu colli yn sgil tynnu arian UKSPF yn ôl. Mae hyn yn dangos y risg y mae'r sector yn ei hwynebu ac yn dangos y gallai dull Cronfa Twf Lleol danseilio ei amcanion o ran creu swyddi. Tynnodd PAVO sylw hefyd at eu prosiect a ariannwyd gan UKSFP, Sgyrsiau Cymunedol, sy'n anelu at ddeall anghenion cymunedau ym Mhowys yn well yn y dyfodol. Bydd y gwaith a wneir i ymgysylltu â grwpiau cymunedol a meithrin ymddiriedaeth, ynghyd â'r wybodaeth a gafwyd, yn cael ei golli os na fydd cyllid yn cael ei gynnal ar gyfer y math hwn o brosiect o dan y Gronfa Twf Lleol.

Mae'r sector eisoes wedi cael ei daro'n galed gan y newid o gyllid yr UE i UKSPF. Ni ellir ailadrodd hyn. Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector i gynllunio'r pontio rhwng cronfeydd ac i osgoi bod wrth ymyl y dibyn. Bydd methu â gwneud hynny yn tanseilio llwyddiant y Gronfa Twf Lleol os na all y sector chwarae rôl lawn yn ei chefnogi. Rhaid cael llwybrau clir a hygyrch i'r sector gwirfoddol wneud cais i'r Gronfa Twf Lleol, gan gefnogi meysydd gwaith parhaus y sector a darparu lle i ddatblygu cynlluniau newydd.

Cwestiwn 17

Rydyn ni eisiau gweld rôl gliriach i'r sector gwirfoddol fel partner cyflenwi ac ar lefel strategol. Mae rhagair Ysgrifennydd y Cabinet yn enwi'r sector gwirfoddol fel partner cyflenwi allweddol. Hoffem weld hyn yn cael ei wneud yn fwy amlwg yn y ddogfen. Yn benodol, o dan adran 3.2, byddem yn galw ar y sector gwirfoddol i fod yn rhan o'r bwrdd ymgynghorol ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Twf Lleol yng Nghymru. Hefyd, hoffem weld y sector gwirfoddol yn uniongyrchol gysylltiedig â dulliau partneriaeth ac ymgysylltu â dinasyddion ar lefel leol. Rhaid i'r sector gwirfoddol fod wedi'i integreiddio'n well i'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gydag adnoddau priodol i hwyluso'r ymgysylltiad hwn.

Mae'r sector gwirfoddol wrth wraidd ein cymunedau ac yn barod i chwarae rôl lawn fel partner cyfartal wrth gyflwyno'r Gronfa Twf Lleol, cyn belled â bod gennym le wrth y bwrdd o'r cychwyn cyntaf. Fel sector, mae gennym arbenigedd a gwybodaeth a all gefnogi'r broses o ddarparu atebion hyblyg i'r problemau sy'n wynebu Cymru, atebion a fydd yn angenrheidiol os yw'r Gronfa Twf Lleol i lwyddo.

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.

Cadw fy ymateb yn ddienw ☐